OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 865 (Cy.127)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU
# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

## Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2011* |

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 15(8)(**1**), a 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**2**), o ran cosbau a roddir gan—

(a) awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru,

(b) Asiantaeth yr Amgylchedd o ran methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cysylltiad â swyddogaeth rheoli perygl o lifogydd neu erydu arfordirol o ran Cymru, ac

(c) Gweinidogion Cymru.

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ac mae'r Cyngor hwnnw wedi ymgynghori â Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder a Thribiwnlysoedd, yn unol ag adran 44 o Ddeddf y Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**3**)a pharagraff 24 o Atodlen 7 iddi.

Mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 15(12) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011;

(b) deuant i rym ar 6 Ebrill 2011; ac

(c) maent yn gymwys o ran cosbau a roddir gan—

(**1**) Rhoddir y pŵer gan adran 15(8) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i "the Minister", ac mae adran 15(10) o'r Ddeddf honno yn diffinio "the Minister" at ddibenion yr adran.
(**2**) 2010 p.29.
(**3**) 2007 p.15.

(i) awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;

(ii) Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cysylltiad â swyddogaeth rheoli perygl o lifogydd neu erydu arfordirol o ran Cymru; a

(iii) Gweinidogion Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;

ystyr "hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a roddir o dan adran 15(1) o'r Ddeddf mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofyniad o dan adran 14(1) neu (3) o'r Ddeddf i ddarparu gwybodaeth;

ystyr "hysbysiad o gosb" ("*penalty notice*") yw hysbysiad gan awdurdod o dan adran 15(3) o'r Ddeddf sy'n rhoi cosb i berson sy'n methu â darparu gwybodaeth a bennir mewn hysbysiad gorfodi yn y cyfnod penodedig.

### Yr hawl i apelio

**3.** Caiff person y rhoddwyd cosb iddo gan hysbysiad o gosb apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn y gosb.

### Y seiliau dros apelio

**4.** At ddibenion rheol 22(2)(g) o Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009(**4**), y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad o gosb wedi'i seilio ar gamgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol;

(c) bod swm y gosb yn afresymol;

(ch) unrhyw reswm arall.

### Y weithdrefn

**5.** Rhaid i'r canlynol fynd gyda hysbysiad o apêl(**5**) o dan reol 22 o Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (yn ychwanegol at fod yn rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â gofynion y Rheolau hynny)—

(a) copi o'r hysbysiad gorfodi;

(b) copïau o unrhyw sylwadau a wnaed o dan adran 15(2)(c) o'r Ddeddf;

(c) copi o'r hysbysiad o gosb.

### Effaith apêl

**6.** Rhaid i awdurdod sy'n cael hysbysiad o apêl gan berson y mae wedi rhoi cosb iddo beidio â chymryd camau i adennill y gosb ar ffurf dyled hyd oni ddyfernir ar yr apêl neu hyd oni chaiff ei thynnu'n ôl.

(**4**) O.S. 2009/1976.
(**5**) *Gweler* rheol 1(3) o O.S. 2009/1976 ar gyfer ystyr "hysbysiad o apêl".

**Dyfarnu ar apêl**

**7.** Pan benderfynir ar apêl o dan reoliad 3, rhaid i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf naill ai—

(a) cadarnhau'r gosb;

(b) lleihau'r gosb; neu

(c) dileu'r gosb.

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu hawl i apelio yn erbyn cosbau a roddir o dan adran 15 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) ("y Ddeddf") o ran Cymru. Maent yn rhoi awdurdodaeth i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf i ystyried apelau a wneir o dan y Rheoliadau hyn. Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn, gan gynnwys: y seiliau dros apelio; effaith apêl; a phwerau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf wrth ddyfarnu ar yr apêl.

Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976) hefyd yn llywodraethu apelau o dan adran 15 o'r Ddeddf a'r broses o ddwyn apêl.

Mae asesiad o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes, costau'r sector gwirfoddol a chostau'r sector cyhoeddus ar gael gan: Yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.